

Dodi'nabod aelod o Glwb Gwawr

EIRA PARRY

IEITHYDD O FÔN.

AELOD O GLWB GWAWR Y GORS
GOCH, LLANBEDRGOCH.

Merch a fagwyd yn Nhy'n y Gongl, Ynys Môn yw Eira Parry. Ond pan oedd yn chwech oed symudodd ei rhieni, teulu o bedair merch ac un mab i lawr y lôn i bentref Moelfre.

Aeth Eira ymlaen o Ysgol Gynradd Moelfre i Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch yn 1976, gan adael yr ysgol honno gyda llwyddiant mewn tri phwnc – Cymraeg, Ffrangeg a Lladin. Penderfynodd ddilyn cwrs gradd mewn Gweinyddu yn y Coleg Normal, a sicrhau swydd ar ddiwedd ei chyfnod yno yn Llyfrgell y Brifysgol



Aelodau Clwb Gwawr y Gors Goch yn mwynhau cinio Nadolig yn y Breeze Hill, Benllech, Rhagfyr 2016

Bangor – gweinyddu yn ystod y dydd, ond mynd i ddosbarthiadau i ddysgu iaith arall – Almaeneg fin nos. Llwyddodd yn yr arholiad TGAU, ond dyheai am fod yn rhugl yn yr iaith. Gwyddai mai'r unig ffordd i wneud hynny oedd drwy fynd i'r Almaen, a thrwytho'i hun mewn Almaeneg. Rhyw ddiwrnod, meddai ei hathrawes, 'Mae fy chwaer yn cadw gwesty yn yr Almaen. Fuasai gennych chi

ddiddordeb mewn mynd yno i weithio?'
Doedd dim rhaid iddi ofyn ddwywaith!

'Es i'r Almaen ym mis Chwefror 1989 gan aros yno tan y mis Tachwedd, a gweithio

ar ynys Borkum yng ngogledd yr Almaen. Doedd yr un o weithwyr y gwesty'n siarad Saesneg. Felly rhaid oedd siarad Almaeneg. Er fy mod bellach yn rhugl mewn Almaeneg, wrth edrych yn ôl, rwy'n gwridio wrth gofio am yr holl gamgymeriadau a wnes ar y cychwyn!

Fi oedd yn gyfrifol am y gegin freewast, gan sicrhau fod y gwesteion yn cael llund eu boliau! Roedd yno bob math o fara a rôls, cigoedd oer, caws, muesli, grawn-fwyd, iogyrt ac ati. Roeddwn wrth fy modd wrth fy ngwaith er bod yr oriau'n hir, 6.30am – 4.30pm. Ar ddiwedd fy nghyfnod yno es i ben arall y wlad, i westy ym Mafaria, ac aros yno tan 1991.

Tra roeddwn ym Mafaria cefais neges gan gyn-ddarlithydd i mi yn dweud ei fod yn mynd â chriw o fyfyrwyr i Strasbwrg, ac a fyddwn yn dymuno ymuno â nhw a chyfieithu iddynt. Treuliais ychydig ddyddiau yn eu cwmni, a rhyw fis yn ddiweddarach cefais alwad ffôn gan un o'r myfyrwyr yn dweud fod Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn chwilio am Gyfieithydd dan Hyfforddiant. Ymgeisiais am y swydd honno ym mis Gorffennaf 1991 a dechreuais

weithio i'r Cyngor ym Medi yr un flwyddyn a pharhau gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd tan 2008.'

Ond, erbyn 2008 yr oedd Eira'n barod am her arall – gradd Meistr y tro hwn, a hynny mewn Astudiaethau Gwyddelig ym Mhrifysgol Galway yn Iwerddon.

'Roedd y cwrs yn cynnwys meysydd fel yr Wyddeleg, llenyddiaeth Iwerddon trwy gyfrwng y Wyddeleg a'r Saesneg, hanes

Iwerddon a gwleidyddiaeth Iwerddon. Er bod y llwyth gwaith yn anferthol mi wnes i wirioneddol ei fwynhau. Roedd Galway ei hun yn ddinas fendigedig, braf



Yr aelodau yn derbyn bagiau Dathlu'r Aur – Eira yw'r cyntaf ar y pen

ac ardal Bothar na Trá (Salthill) gyda'i thraeth tywod yn fy atgoffa o adref. Ar ddiwedd y cwrs, cefais swydd ran-amser yng Nghanolfan Dreftadaeth Athenry. Pe na byddai dirwasgiad enbyd wedi bod yn Iwerddon ar y pryd, a phetai gennyf swydd lawn amser, mi fyddwn wedi bod wrth fy modd aros yn Galway, ond anodd oedd byw yno dan yr amodau ariannol oedd ohoni.

Yn 2011 deuthum yn ôl i Sir Fôn, a dechreuais weithio fel cyfieithydd llawrydd, gwaith yr wyf yn ei wneud hyd heddiw. Gan fy mod hefyd yn cyfieithu ar y pryd, mae digon o amrywiaeth rhwng cyfieithu ar bapur a chodi allan i fynd i amryfal gyfarfodydd a chyfieithu ynddynt. A pha ffordd well i ymlacio wedyn nag ymuno gydag aelodau'r Clwb Gwawr! Ac mae'r rhaglen mor amrywiol – roedd y noson ddiwethaf a gawsom yn hynod ddifyr a diddorol. – merch ifanc yn sôn wrthym am ei thaith hi a'i brawd i Base Camp Everest i gerdded i gasglu arian er cof am eu brawd.'

Tybed oedd y sgwrs yn codi hiraeth ar Eira i godi'i phac drachefn?

'Gwnes lu o ffrindiau pan oeddwn yn yr Almaen ac rwyf yn parhau i fod mewn cysylltiad ag ambell un gan fynd draw i'w gweld yn aml a hwythau'n dod draw ataf i. Dwi'n dysgu Daneg... A bûm ar Ynys Creta yn ddiweddar... A buaswn wrth fy modd yn byw yn Galway ... A dwi'n mwynhau bwyd Tsieineaidd...'

Lle bynnag yr ewch, Eira, pob dymuniad da i chi!